# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Paru Swyddi Ar-lein –

# beth sydd angen i chi ei wybod am gwcis

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae Paru Swyddi Ar-lein yn defnyddio cwcis, ac mae'r ddalen ffeithiau hon yn esbonio beth i'w wneud os nad ydych chi eisiau'r rhain ar eich dyfais rhyngrwyd. Mae hefyd yn dweud wrthych sut i reoli neu ddileu cwcis.

## Beth yw cwci?

Mae *cwci* (a elwir hefyd yn *cwci HTTP*, *cwci'r we*, neu *gwci porwr*) yn ffeil fach a anfonwyd o'r wefan a'i storiwyd yn eich porwr gwe. Pan fyddwch yn mynd i'r un wefan yn y dyfodol, mae'r cwci yn dweud wrth y wefan am eich ymweliad blaenorol.

## Pryd y mae cwcis yn cael eu gosod ar fy nyfais?

Bydd rhai cwcis yn cael eu gosod ar eich dyfais cyn gynted ag y byddwch

- yn mynd i hafan Paru Swyddi Ar-lein, neu
- yn mynd ymlaen i wefannau GOV.UK neu Borth y Llywodraeth, neu
- ymweld â'r safleoedd hyn eto ar ôl i chi ddileu cwcis o'ch dyfais.

Os ydych yn aros ar y safleoedd hyn, byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi darllen y polisi cwcis ar gyfer pob safle ac yn hapus i dderbyn y cwcis hyn ac unrhyw cwcis pellach a fydd yn cael eu gosod ar eich dyfais.

## Pam bod hyn yn bwysig i mi fel ceisiwr gwaith?

Fel rhan o'ch gweithgaredd chwiliad gwaith efallai y gofynnwyd i chi greu proffil a CV yn Paru Swyddi Ar-lein a chofrestru ar gyfer cyfrif Porth y Llywodraeth ar GOV.UK.

Efallai hefyd y gofynnwyd i chi ddefnyddio Paru Swyddi Ar-lein yn rheolaidd i'ch helpu i ddod o hyd i waith ac i ddweud wrthym am eich gweithgareddau chwiliad gwaith.

Mae Paru Swyddi Ar-lein, GOV.UK, a Phorth y Llywodraeth i gyd yn defnyddio cwcis. Nid yw'r cwcis maent yn eu defnyddio yn cadw gwybodaeth bersonol.

## Cwcis Paru Swyddi Ar-lein

Mae'r math o gwcis a ddefnyddir ar Paru Swyddi Ar-lein ar gyfer:

- **diogelwch** – mae'r cwcis hyn yn helpu i gadw eich cyfrif yn ddiogel
- **dewis** – mae'r cwcis hyn yn storio eich dewisiadau, fel dewis iaith a sut y bydd eich canlyniadau chwiliad gwaith yn cael eu harddangos
- **dadansoddol** – mae'r cwci's hyn yn cofnodi sut mae pobl yn defnyddio'r wefan er mwyn i ni nodi cynnwys poblogaidd a phroblemau posibl.
- **cwcis arolygu** – mae'r rhain yn casglu adborth pwysig y gallwn ddefnyddio i wella'r wefan.

Mae rhestr lawn o'r mathau o gwcis ar gael yn y polisi cwcis, y gallwch ddod o hyd iddynt drwy glicio ar y ddolen *Cwcis* ar waelod hafan Paru Swyddi Ar-lein. Ond mae rhai cwcis yn cael eu gosod ar eich dyfais cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd hafan Paru Swyddi Ar-lein, cyn i chi glicio ar y ddolen i'r polisi cwcis. Mae rhestr o'r rhain yn y tabl ar y dudalen nesaf.

## Porth y Llywodraeth

Mae'r rhan fwyaf o gwcis Porth y Llywodraeth yn *cwcis sesiwn* ac yn cael eu dileu oddi ar eich dyfais cyn gynted ag y byddwch yn cau eich porwr. Ond mae un cwci yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cofrestru, ac mae hyn yn aros ar eich dyfais am 1,000 o ddiwrnodau. Gallwch gael mwy o wybodaeth am sut mae Porth y Llywodraeth yn defnyddio cwcis drwy glicio ar y ddolen polisi preifatrwydd ar waelod pob tudalen yn **www.gateway.gov.uk**

## GOV.UK

Ar eich ymweliad cyntaf â rhannau o GOV.UK, efallai y bydd neges 'pop-up' sy'n eich croesawu ac yn darparu gwybodaeth am y safle. Mae GOV.UK yn storio cwcis yn y fan hon fel bod eich dyfais yn gwybod eich bod wedi ei gweld ac yn gwybod i beidio â'i dangos eto. Mae'r cwcis hyn yn cael eu storio am fis neu lai.

Gall *cwcis Google Analytics* hefyd dechrau cyn gynted ag y byddwch yn ymweld â'r dudalen gartref, i gofnodi sut byddwch yn defnyddio'r safle. Gallwch atal cwcis Google Analytics cael eu storio ar eich dyfais os ydych yn defnyddio unrhyw un o'r porwyr hyn: Internet Explorer, Chrome, Mozilla Firefox, Safari neu Opera.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar y ddolen cwcis ar waelod hafan GOV.UK neu ewch i **www.gov.uk/help/cookies**

## Gwneud cais am swyddi drwy Paru Swyddi Ar-lein

Gall rhai swyddi yn Paru Swyddi Ar-lein ddweud wrthych am wneud cais am y swydd drwy wefan recriwtio'r cwmni ei hun. Gall y gwefannau hyn hefyd ddefnyddio cwcis. Os nad ydych eisiau derbyn y cwcis hyn ar eich dyfais eich hun, gallwch wneud cais am y swydd ar ddyfais yr Adran Gwaith a Phensiynau. Gofynnwch i'ch anogwr gwaith am hyn.

## Beth os wyf eisiau dileu cwcis ar fy nyfais, neu droi'r cwcis i ffwrdd?

Cliciwch ar y ddolen *Cwcis* ar waelod pob tudalen y we mewn Paru Swyddi Ar-lein neu'r ddolen *Help* ar eich porwr y rhyngrwyd i ddarganfod sut i ddileu neu droi eich cwcis i ffwrdd ar eich dyfais. Ewch i **www.aboutcookies.org** am ragor o wybodaeth. Mae rhai porwyr ond yn gadael i chi droi i ffwrdd y cwcis sy'n ymwneud â Paru Swyddi Ar-lein. Nid yw porwyr eraill yn gwneud hyn, ac efallai y byddant yn dileu pob cwci o'ch dyfais, gan gynnwys y rhai cwcis rydych wedi dewis eu derbyn o wefannau eraill.

Os byddwch yn troi cwcis i ffwrdd, ni fyddwch yn gallu cofrestru gyda Paru Swyddi Ar-lein, uwchlwytho CV neu arbed unrhyw chwiliadau gwaith. Byddwch ond yn gallu cynnal chwiliadau gwaith dienw.

## Beth os nad wyf eisiau cael cwcis eu gosod ar fy nyfais?

Ni fyddwch wedi cael gwybod i ddefnyddio Paru Swyddi Ar-lein oni bai eich bod yn gallu defnyddio dyfais yr Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn dymuno. Gofynnwch i'ch anogwr gwaith am hyn. Gallwch ddefnyddio dyfais yr Adran Gwaith a Phensiynau os nad ydych eisiau derbyn cwcis neu wedi dewis dileu cwcis ac nid ydych am eu derbyn eto. Mae cwcis eisoes wedi cael eu derbyn ar holl ddyfeisiau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Os ydych yn cael budd-dal oedran gweithio ac yn defnyddio Paru Swyddi Ar-lein yn wirfoddol, ac nad ydych eisiau derbyn cwcis, gofynnwch i'ch anogwr gwaith os oes dyfais y gallwch ei ddefnyddio.

Gallwch hefyd ddefnyddio Paru Swyddi Ar-lein ar gyfrifiaduron cyhoeddus mewn caffis rhyngrwyd, llyfrgelloedd neu ganolfannau ar-lein DU.
Bydd angen i chi wirio bod y dyfeisiau hyn wedi cael eu sefydlu i dderbyn cwcis, oherwydd efallai y bydd rhaid i chi dderbyn cwcis ar y dyfeisiau hynny i ddefnyddio Paru Swyddi Ar-lein.

## Sut alla i gael mwy o wybodaeth am gwcis?

Am fwy o wybodaeth am sut i reoli neu dileu cwcis, ewch i **www.aboutcookies.org**

**Mae'r cwcis yn y tabl hwn yn cael eu rhoi ar eich dyfais cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd hafan Paru Swyddi Ar-lein.**

| Enw'r cwci | Pwrpas | Gorffen |
|---|---|---|
| _ga | Mae'r cwci hwn yn rhoi gwybodaeth i ni am sut mae pobl yn defnyddio'r safle. Gallwch ei analluogi a'i ddileu drwy ddewis y botwm *Delete all analytics cookies* ar ôl clicio ar y ddolen *Cwcis* ar waelod pob tudalen. | 24 mis |
| _gat | Mae'r cwci hwn yn rhoi gwybodaeth i ni am sut mae pobl yn defnyddio'r safle. Gallwch ei analluogi a'i ddileu drwy ddewis y botwm *Delete all analytics cookies* ar ôl clicio ar y ddolen *Cwcis* ar waelod pob tudalen. | 10 munud |
| ipe_s | Mae'r cwci hwn yn gadael i'r system gofyn cwestiynau arolwg dienw i'r defnyddwyr. Gallwch ei analluogi a'i ddileu drwy ddewis y botwm *Delete survey cookies* ar ôl clicio ar y ddolen *Cwcis* ar waelod pob tudalen. | Pan fyddwch yn cau'r porwr |
| ipe.372.page ViewedCount | Mae'r cwci hwn yn gadael i'r system gofyn cwestiynau arolwg dienw i'r defnyddwyr. Gallwch ei analluogi a'i ddileu drwy ddewis y botwm *Delete survey cookies* ar ôl clicio ar y ddolen *Cwcis* ar waelod pob tudalen. | Pan fyddwch yn cau'r porwr |
| IPE122148 | Mae'r cwci hwn yn gadael i'r system gofyn cwestiynau arolwg dienw i'r defnyddwyr. Gallwch ei analluogi a'i ddileu drwy ddewis y botwm *Delete survey cookies* ar ôl clicio ar y ddolen *Cwcis* ar waelod pob tudalen. | 90 diwrnod |
| SURVEY OPTOUT | Mae'r cwci hwn yn cofio os ydych wedi dewis i analluogi'r defnydd o godau olrhain arolwg. Gallwch ei analluogi a'i ddileu drwy ddewis y botwm *Delete survey cookies* ar ôl clicio ar y ddolen *Cwcis* ar waelod pob tudalen. | 120 mis |